Ardal Penmaenmawr - Nodiadau Cyfarfod Rhanddeiliaid Enwebedig
Iau 22 Hydref 2009

Presennol: Geraint James (GJ) (Pennaeth Statudol Gwasanaethau Addysg)
Dilwyn Price (DP) (Pennaeth Gwasanaethau Gwella Ysgol)
Emma Bayliss (EB) (Rheolwraig Cynllun)
Gareth Thomas (GT) (TJB)
David Batten (DB) (TJB)

Arsylwyr**:** Cyng. K. A. Stevens
Cyng. G. Hall

1. Rhagarweiniad

Rhoddodd DB ragarweiniad i'r cyfarfod gan esbonio'r drefn a'r gweithdy.

2. Cyflwyniadau

Rhoddodd GJ gyflwyniad ar ddatblygiad y cynllun hyd yma ac ar y ddogfen Ardaloedd i'w Hadolygu.

Sesiwn Cwestiwn ac Ateb (C = cwestiwn, A = Ateb, S= Sylw)

C: Beth yw manteision ail wneud dwy ysgol ar wahân o gymharu ag adeiladu ysgol newydd wedi'i chyfuno?
A: Byddai angen edrych ar ddadansoddiad mantais cost.
C: Ardaloedd ar gyfer adolygiad dechreuol – Ai ardaloedd o ddwy ysgol neu fwy yn unig yw'r rhain ?
A: Na, oherwydd nid oes gan rai ohonynt ond un ysgol.
C: Pryder bod yr ardaloedd wedi'u seilio ar ddaearyddiaeth yn unig?
A: Na, ni ddechreuwyd gydag ardaloedd daearyddol, dechreuwyd gydag adolygiad o bedwar prif yrwyr.
C: Pryder bod ysgolion a ddetholwyd ar gyfer adolygiad dechreuol yn seiliedig ar ardal ddaearyddol tra bo'r pedwar prif yrrydd yn bwysicach. Mae llawer o ysgolion yn yr adroddiad sy'n waeth allan na ni o dan 'addas i'r pwrpas' etc felly mae hyn yn parhau fy nadl.
A: Rhaid dangos i LICC ein bod wedi herio pob ysgol/ardal yn gadarn ac angen dangos mantais i'r ardal yn hytrach nag i un ysgol.
C: Meddwl y gallai adeiladu ysgol newydd fod yn beth cadarnhaol ond mae angen ystyried bywoliaeth yr ysgolion sy'n bodoli nawr.
C: 10 rhiant wedi cyflwyno eu henwau o bob ysgol ond mae hyn yn mynd i effeithio pawb felly dylid fod wedi gwahodd mwy o randdeiliaid.
A: Rhaid cofio na fydd newidiadau efallai yn digwydd am 10-15 mlynedd. Dyma'r gyntaf o ymgynghoriadau a fydd wedyn yn arwain at ymgynghoriad dyfnach ynghylch pob ysgol gyda mwy o randdeiliad.
C: Heb fy argyhoeddi nad oes gennych ddewis yr ydych yn ei ddymuno - pa ddylanwad all y grŵp hwn ei gael ar unrhyw ddewis sydd ganddoch mewn golwg ?
A: Mae'n amlwg bod amrywiaeth cyfyng o ddewisiadau ond nid oes cynigion ar y funud.
C: Fe ddaw'r arian ar gyfer y gwelliannau gan y Cynulliad – A yw'r Cynulliad yn gwthio'r ymgynghoriad er eu pwrpasau eu hunain ?
A: Mae pwysau gwleidyddol i leihau lleoedd gwag ac er mwyn cyflawni hyn mae'n rhaid i ni resymoli. Pe bai LlCC yn gwthio hyn, mae'r arian

sydd ar gael i ni yn gyfyng ac yn lleihau beth bynnag, felly byddai'n rhaid i ni wneud rhywbeth i wneud gwariant yn fwy effeithlon.

C: A allech anfon cynnig at LICC am welliannau a allai gael eu gwrthod ?

A: Dyna'r rheswm am y cyfarfodydd hyn – angen bod yn hyderus y bydd unrhyw gais a gyflwynir ar gyfer unrhyw ardal, y bydd yr ardal yn ei gefnogi a bydd y cais yn cael ei gymeradwyo.

C: Mae 10-15 mlynedd i fod yn galonnog ond rwy'n poeni am yr ardaloedd unigol. A ydych yn gweld Penmaenmawr a Dwygyfylchi fel un neu ddwy ardal?

A: Anodd rhoi ateb, angen ystyried y ddau bentref.

Rhoddodd DP gyflwyniad ar ddata ysgol benodol gan gynnwys gwybodaeth ar 'addas i'r pwrpas', lleoedd gwag a dalgylchoedd. Nodwyd bod Ysgol Capelulo nawr yn Saesneg / Cymraeg yn hytrach na Saesneg yn unig. Nodwyd o ble ddaeth meini prawf 'addas i'r pwrpas' a sut mae rhagamcanion disgybl yn cael eu cyfrifo.

Sesiwn Cwestiwn ac Ateb (C = cwestiwn, A = Ateb, S= Sylw)

C: Beth yw dalgylch Capelulo?

A: Esboniwyd yn ddaearyddol

C: A edrychwyd ar gyfuniad o ddalgylchoedd ar gyfer y ddwy ysgol?

A: Heb wneud hyn gan y byddai hyn yn mynd yn rhy bell yn nhermau'r ymgynghori a wnaed hyd yma.

C: A fyddech yn fodlon cyflwyno'r wybodaeth sydd wedi arwain at gynhyrchu'r graffiau hyn ?

A: Wrth gwrs, ond mae angen adolygu'r dystiolaeth hon yn flynyddol. Mae croeso i rywun weld sut mae'r wybodaeth yn cael ei gasglu.

C: A oes targed i ostwng lleoedd gwag i 25%?

A: Dim ffigwr, ond mae pwysau arnom i leihau lleoedd gwag. Gobeithiwn eu lleihau i rhwng 10% a 20%.

C: Felly, nid ydych yn bendant yn dilyn polisi o ddim lleoedd gwag oherwydd bod arnoch yn amlwg angen hyblygrwydd a chapasiti?

A: Rydym yn bendant yn cymryd capasiti i ystyriaeth ond nid yw genedigaethau'n cynyddu ac mae'r boblogaeth hŷn yn cynyddu.

C: Wedi darllen ystadegau sy'n dweud y bydd graddfa genedigaeth yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf.

A: Mae'n ymddangos ei fod wedi gwaelodi ond rydym yn derbyn bod angen cadw hyblygrwydd yn y system.

C: Meddwl y dylai canran lleoedd gwag fod wedi'i ddangos o chwith. Mae'r rhoi ysgolion mewn golau drwg a dylai graffiau fynd at 100%.

A: Derbyn beth rydych wedi'i ddweud ac yn ei ystyried.

C: Bydd yn anodd i chi wneud penderfyniadau yn y dyfodol gan y bydd y strategaeth yn cael ei hariannu ac felly ni all fod yn rhy hyblyg.

Esboniodd GT y gweithdy.

3. Adborth Gweithdy

<u>Adeiladau</u>

Capelulo

- Angen man wedi'i orchuddio/cysgodol
- Gwella toiledau

- Uned blynyddoedd cynnar ardderchog
- Man awyr agored ardderchog – lleoedd ardderchog o fewn cyrraedd a golygfeydd bendigedig
- Dosbarthiadau da – agos at ei gilydd – cydweithio da
- Ystafell TGC? Pam? Nid yw'r cyfnod sylfaen yn annog ei ddefnyddio.
- Ystafell TGC yn fwy ar gyfer ysgolion uwchradd – eu cadw yn y dosbarth !

Pencae

- Yn amlwg mae'r hyn sydd ar gael ym Mhencae yn addas i'r pwrpas OND i fod yn wrthrychol – dros ½ yn HEN ac ar ochr mynydd
- Materion hygyrchedd h.y. anabledd
- Addas i'r pwrpas
- Nid yw'n ymwneud yn unig am adeiladau ond am fannau gwyrdd, buarth, cae
- Amgylcheddol gyfeillgar ac ynni effeithlon (Yn dymuno datblygu)
- Amgylchedd dysgu cadarnhaol h.y. dosbarth i symbylu plant
- Mannau gorchuddiedig Pencae (Yn dymuno cael)
- Pencae angen lifft
- Ynysu Pencae ?
- Paneli solar (Yn dymuno cael)
- Colli gwres
- Gwydro dwbl (Yn dymuno cael mwy)

<u>Defnydd yr ardal o adeiladau</u>

Capelulo

- Cael ei ddefnyddio gan y Brownies a'r grŵp chwarae
- Potensial clwb gofal ar ôl ysgol
- Pob clwb diddordeb ar ôl ysgol
- "Sioe haf" (cynnyrch a chrefft etc) newydd i'r ardal
- Annog mwy o ddefnydd gan grwpiau lleol

Pencae

- Neuadd Pencae ar gael i'r cyhoedd – rhoi cyhoeddusrwydd i hyn
- Gwneud mwy o ddefnydd o'r adnodd ar gyda'r nos a phenwythnosau. Pencae â'r potensial i hyn

<u>Yr hyn allai fod</u>

Capelulo

- 2 ysgol wedi'u moderneiddio – 1 ymhob ardal – cadw hynodrwydd a'i theimlad o gymdeithas ei hun
- 2 ysgol yn agored fwy i'r ardal ac yn gwneud defnydd o'r adnoddau (h.y. grŵp chwarae, Brownies, clwb ar ôl ysgol)
- Adeilad lleol ar gyfer anghenion lleol (h.y. hwylus)
- Hoffai plant a staff barhau gyda'r gwaith caled o ddatblygu'r berllan, yr ardd, y man agored, polytunnel, sioe haf, cysylltiadau â'r fro – h.y. gwyliau'r eglwys
- Angen i blant fod yn rhan o fywyd y pentref – angen iddynt ddysgu sgiliau ar gyfer pan fyddant yn byw yma fel oedolion yn y dyfodol

Pencae

- Ysgol Eglwys Gymorthedig (VA) yn darparu addysg o'r safon uchaf i blant ardaloedd Penmaenmawr/ Dwygyfylchi gydag ethos/cymeriad Cristnogol sydd yn hybu datblygiad pob disgybl
- Adeiladau newydd sy'n addas ar gyfer anghenion addysgol ein canrif, ac sydd hefyd yn adnodd gwerthfawr i'r ddwy ardal

<u>Yr ysgol fel rhan o'r gymdeithas</u>

Capelulo
- Rhan bwysig o fywyd yr ardal
- Yr ysgol leol yn cynnal siopau lleol, bysiau, y plismon lleol yn llywodraethwr
- Dylai strategaeth ysgolion ddilyn polisïau eraill - cynaliadwyaeth cymdeithasau lleol - atal trosedd - byw'n iach - cerdded/reidio beic i'r ysgol - strategaeth ardal
- Yr uned blynyddoedd cynnar yn cael ei defnyddio ar gyfer y grŵp chwarae lleol – "un llwyth" i rieni i un adeilad ar gyfer cyn ysgol ac ysgol

Pencae
- Mae'r ysgol yn gymuned o fewn cymuned ac yn hapus
- Pencae gyda'i dwy ffrwd yn darparu i'r ardal gyfan
- Annog mwy o ddefnydd ardal mewn traws doriad o glybiau tu allan i oriau
- Po leiaf fo'r ysgol y mwyaf tebygol y bydd pobl o adnabod ei gilydd – lleihau trosedd ac ofn trosedd
- Ysgolion yn adeiladu cymdeithas
- Gall ysgolion effeithio ar yr ardal (cadw siopau ar agor)

<u>Addysg</u>

Capelulo
- Wedi'i deilwra ar gyfer anghenion unigol
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o gyd-destun teulu yn yr ysgol
- Heriol
- Yr ymdrechion i godi safonau h.y. Cymraeg, meddalwedd TG, cynllun màths, ADY (yr ysgol yn enwog am hyn)
- Clwb ar ôl ysgol
- Cwricwlwm eang gyda sawl profiad
- Cefnogaeth pobl leol ar gyfer ymweliadau awyr agored
- Lleoliad cyfleus ar gyfer y mynydd/môr
- Darpariaeth feithrin newydd a grŵp chwarae ar y safle yn caniatáu parhad a datblygiad
- Cynllun Comenius

Pencae
- Mae angen sicrhau darpariaeth wych yr Ysgol Eglwys sydd yma ar hyn o bryd
- Angen sicrhau bod ffrydio yn parhau – gwell fyth fyddai ysgol ddwyieithog
- Dwy ysgol yn cynnig dewis

- Y safonau addysgol a gynigir yn y ddwy ysgol yn dda – er gwaethaf “diffygion” yr adeilad – nid yw ysgolion eraill yn perfformio cystal ac nid o dan adolygiad dechreuol?

Anghenion a Lles Plant

Capelulo
- O’r pwysigrwydd mwyaf – mae gan blant lais – gofyn i gyngor yr ysgol
- Gallu cerdded yn ddiogel i’r ysgol (materion gwyrdd)
- Peidio bod yn rhif – staff yn adnabod y plant
- Plant yn adnabod plant eraill a staff
- Rhieni yn adnabod y plant
- Amgylchedd ysgol diogel
- Angen i blant deimlo’n ddiogel a saff
- Cynnig sgiliau bywyd trwy glybiau ar ôl ysgol
- Rhai plant yn gweithio’n well o fewn amgylchedd llai (yn arbennig hyder perthynas staff/disgybl)
- Heb ystyried lles staff ?
- Os byddwn yn cyfuno’r ddwy ysgol ac wynebu sefyllfa fel Porth y Felin ble rhagwelwyd gostyngiad o 46% mewn niferoedd - a yw hyn yn llwyddiant ?
- Mae’r natur ddynol yn ffafrio ysgolion bach a dosbarthiadau bach ond rydym yn parhau i deimlo bod angen i ni wneud pethau’n fwy h.y. cyfuno ysgolion

Pencae
- Yr angen i blant fod â lle i chwarae, gweithgaredd corfforol a bod yn greadigol
- Amgylchedd saff a diogel
- Ni ddylai graddfa athro: disgybl godi

Cymdeithasol

Capelulo
- Cyfraniad yr ysgol i’r ardal e.e. yr ŵyl ddiolchgarwch a’r gwasanaeth Nadolig yn yr eglwys, ffair ysgol a chyngherddau (h.y. Gŵyl Ddewi) yn neuadd yr eglwys,
- Cysylltiad â Sefydliad y Merched Dwygyfylchi
- Gwefan yn agored i gysylltiadau’r ardal
- Cylchlythyr ar gael yn y siop
- Paentio blodau y tu allan i’r siop
- Cerdded i’r ysgol
- Clwb brecwast
- Cyswllt â’r swyddog cefnogi ardal sy’n helpu gydag addysg a materion lleol (lefelau isel o drosedd o’r herwydd)
- Gwahodd pobl leol i helpu h.y. garddio, darllen, crefft, DaT, meithrin
- Cynllun Commenius
- Nosweithiau agored o ganlyniad i gynlluniau newydd e.e. polisi addysg rhyw, gwella darpariaeth Gymraeg
- Y gymdeithas yn colli ei chanolbwynt

Pencae
- Ysgol fach gyda chymysgedd o oedrannau = cymdeithas fwy clos

- Bydd ysgol ddwyieithog yn arwain at ddatblygu sgiliau cymdeithasol dwyieithog
- Cadw cysylltiadau â'r eglwys

Cludiant

Capelulo
- Gallu cerdded neu reidio beic i'r ysgol
- Diffyg palmant diogel rhwng y ddwy ardal
- Cludiant cyhoeddus gwael (annibynadwy) pe bai'r ysgol y tu allan i'r ardal

Pencae
- Gwella diogelwch ysgol i.e. 'sleeping policemen'
- Parcio a theithio?
- Goleuo
- Palmant
- System rheoli trafnidiaeth
- Gwell adnoddau parcio
- Gwella mynediad
- Rhannu reid
- Annog mwy o ddefnydd o fysiau yn lle car – goruchwyliaeth oedolion

Capelulo
- Cludiant Capelulo

4. Sesiwn Cwestiwn ac Ateb Terfynol (C = cwestiwn, A = Ateb, S= Sylw)

C: Yn nhermau adeiladau, byddem yn croesawu buddsoddiad yn y safleoedd. Mae'n bwysig hefyd dwyn sylw at gyflawni safonau da.
A: Derbyn hyn.
C: Mae gan y grŵp chwarae ran bwysig i'w chwarae mewn ysgolion. Mae'n bwydo plant i'r ysgol ac wedi'i gofrestru gyda CSSIW. Dylai'r grŵp chwarae fod o fewn unrhyw adeilad newydd.
A: Yn bendant yn cymryd y sylw hwn i ystyriaeth a'i gadw mewn cof os bydd codi adeilad newydd. Derbyn gwybodaeth newydd neu adborth hyd Dachwedd 2009.
C: Cofio cyfrifoldeb i athrawon a'r rhai sy'n cadw'r ysgol ynghyd. Mae athrawon yn rhan o'r gymdeithas ac angen eu hystyried yn y dyfodol.
A: Sefydlu tîm adnoddau dynol i sicrhau bod hyn yn cael ei gynnwys.
C: A gynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb eto ?
A: Bydd hwn yn cael ei gynnal pan fydd dewisiadau dymuniedig yn cael eu cyflwyno a'u penderfynu.
C: A yw'r cynllun hwn wedi bod yn mynd ymlaen ers mwy na 18 mis ?
A: Roedd polisi yn ei le yn 2006 i adolygu ysgolion gyda llai na 25 disgybl ond nid oedd Capelulo yn y sefyllfa hon. Cam ddyfynnwyd hwn yn y papur.
C: Bu buddsoddiad yn y ddwy ysgol yn ddiweddar. A oes gennych syniadau ynghylch yr ysgolion fydd yn dod i ben ?
A: Mae gennym syniadau i drafod hyn gyda'r Gwasanaeth Datblygu Cymuned.

Diolchodd DB i bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniad i'r cyfarfod gan y cafwyd llawer o wybodaeth bwysig.